**RHYBUDD o Benderfyniadau Cyfarfod Y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni , ddydd Llun, 17 Medi, 2018**

Cyhoeddir y Rhybudd hwn am 5:00pm ar ddydd Iau, 20 Medi, 2018. Rhaid cyflwyno unrhyw geisiadau i alw i mewn unrhyw benderfyniad i'r Prif Weithredwr erbyn dim hwyrach na 5:00pm ar ddydd Iau, 27 Medi, 2018. Daw'r penderfyniadau i rym (os na fydd yna gais dilys i'w galw i mewn) ar ddydd Gwener, 28 Medi, 2018.

**Presennol**: Y Cynghorwyr R Dew, Llinos Medi Huws (Cadeirydd)

R. Meirion Jones, Dafydd Rhys Thomas, Ieuan Williams, Alun W Mummery, Carwyn Jones a Robin Williams

**Hefyd yn bresennol:** Y Cynghorydd Peter Rogers

**Ymddiheuriadau**: Y Cynghorydd R G Parry OBE, FRAgS

(10:00 y. b. i 11:30 y. b.)

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **3 Cofnodion**<br>Amherthnasol |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd cymeradwyo cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 16 Gorffennaf, 2018 a'r cyfarfod arbennig a gynhaliwyd ar 18 Gorffennaf, 2018 fel rhai cywir.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Amherthnasol** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Amherthnasol** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **4 Blaenraglen Waith y Pwyllgor Gwaith**<br>Adroddiad gan Bennaeth y Gwasanaethau Democrataidd |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd cadarnhau Blaenraglen Waith ddiweddaredig y Pwyllgor Gwaith am y cyfnod Hydref, 2018 i Mai, 2019 gyda'r newidiadau a amlinellwyd yn y cyfarfod.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Er mwyn cryfhau trefniadau atebolrwydd a blaengynllunio.** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |

| | |
|---|---|
| | |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **5 Cerdyn Sgorio Corfforaethol - Chwarter 1, 2018/19**<br>Adroddiad gan y Pennaeth Trawsnewid ac Adnoddau Dynol |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd nodi'r meysydd y mae'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth yn eu rheoli er mwyn sicrhau gwelliannau i'r dyfodol, sef y rhai a nodir ym mharagraffau 3.1.1 i 3.1.5 yr adroddiad ac i dderbyn y mesurau lliniaru fel y cawsant eu hamlinellu.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Nodi meysydd yn y Cyngor sy'n tanberfformio.** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **6 Cynllun Ariannol ar gyfer y Tymor Canol 2019/20 - 2021/22**<br>Adroddiad gan y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd nodi cynnwys y Cynllun Ariannol ar gyfer y Tymor Canol 2019/20 a chymeradwyo'r rhagdybiaethau ynddo.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Cymeradwyo strategaeth gyllidebol ar gyfer y Cyngor am y tair blynedd nesaf.** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **7 Monitro'r Gyllideb Refeniw - Chwarter 1, 2018/19**<br>Adroddad gan y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd nodi'r canlynol –**<br><br>**• Y sefyllfa a amlinellir yn atodiadau A a B yng nghyswllt perfformiad ariannol yr Awdurdod** |

| | |
|---|---|
| | **hyd yma a'r alldro disgwyliedig ar gyfer 2018/19;**<br>• **Y crynodeb o'r cyllidebau wrth gefn ar gyfer 2018/19 fel y manylir arnynt yn Atodiad C;**<br>• **Y sefyllfa mewn perthynas â'r Rhaglenni Buddsoddi i Arbed yn Atodiad CH;**<br>• **Y sefyllfa o ran arbedion effeithlonrwydd 2018/19 yn Atodiad D;**<br>• **Y modd y caiff costau staff asiantaeth ac ymgynghorwyr eu monitro yn 2018/19 fel yr amlinellir yn Atodiadau DD ac E, a fod –**<br>• **Yr ad-daliad TAW annisgwyl oddeutu £800k yn cael ei gredydu i gronfa wrth gefn glustnodedig y byddir yn penderfynu ar ei defnydd yn nes ymlaen.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Monitro perfformiad Cyllideb Refeniw 2018/19.** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **8 Monitro'r Cyfrif Refeniw Tai - Chwarter 1, 2018/19**<br>Adroddiad gan y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddua)/Swyddog Adran 151 |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd nodi'r sefyllfa o ran perfformiad ariannol y Cyfrif Refeniw Tai (CRT) ar gyfer Chwarter 1 ynghyd â'r alldro a ragamcenir ar gyfer 2018/19.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Monitro perfformiad y Gyllideb CRT am 2018/19.** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **9 Monitro'r Gyllideb Gyfalaf - Chwarter 1, 2018/19**<br>Adroddiad gan y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd nodi'r cynnydd o ran gwariant a derbyniadau yn erbyn cyllideb gyfalaf 2018/19 yn Chwarter 1.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Monitro perfformiad y Gyllideb Gyfalaf am 2018/19.** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **10 Adolygiad o'r Strategaeth Rheoli Trysorlys 2017/18**<br>Adroddiad gan y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd –**<br><br>**• Nodi y bydd y ffigyrau alldro yn yr adroddiad hwn yn parhau i fod yn rhai dros dro hyd nes bydd yr archwiliad o Ddatganiad Cyfrifon 2017/18 wedi ei gwblhau a'i lofnodi; adroddir fel sy'n briodol ar unrhyw addasiadau sylweddol i'r ffigyrau sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad hwn.**<br>**• Nodi'r dangosyddion pwyllog a thrysorlys dros dro ar gyfer 2017/18 sydd yn yr adroddiad.**<br>**• Derbyn yr Adroddiad Rheoli Trysorlys Blynyddol am 2017/18 a'i gyflwyno i'r Cyngor llawn heb unrhyw sylwadau.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Cydymffurfio gyda rheoliadau a chyda Chynllun Dirprwyo'r Cyngor mewn perthynas â'r Cynllun Rheoli Trysorlys** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Na. Bydd y mater yn cael ei ystyried gany Cyngor Llawn** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **11 Adroddiad Cynnydd ar y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd**<br>Adroddiad gan Bennaeth y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd cadarnhau bod y Pwyllgor Gwaith yn fodlon â'r camau a gymerwyd i weithredu'r Cynllun Gwella Gwasanaeth a chyda cyflymder y cynnydd hwnnw ynghyd â chyflymder y cynnydd a'r gwelliannau a wnaed yn y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd hyd yma.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Monitro gweithrediad y Cynllun Gwella Gwasanaeth ar gyfer y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd.** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **12 Protocol y Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol**<br>Adroddiad gan y Prif Weithredwr Cynorthwyol (Llywodraethiant a Thrawsnewid Prosesau Busnes)/Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd argymell i'r Cyngor -**<br>**• Ei fod yn mabwysiadu'r Protocol sydd wedi ei gynnwys yn Atodiad 1 yr adroddiad.**<br>**• Ei fod yn rhoi'r awdurdod i Bennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor/Swyddog Monitro) y Cyngor i wneud y newidiadau angenrheidiol i'r Cynllun Dirprwyo ar gyfer y prif Weithredwr Cynorthwyol (Llywodraethiant a Thrawsnewid Prosesau Busnes) yn y Cyfansoddiad ac unrhyw newidiadau a wneir o ganlyniad er mwyn adlewyrchu mabwysiadu'r Protocol yn Atodiad 1.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Cydymffurfio gyda Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Na. Bydd y mater yn cael ei ystyried gan y Cyngor Llawn** |

| | |
|---|---|
| | |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **13 Adroddiad Blynyddol Iechyd a Diogelwch**<br>Adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaeth (Rheoleiddio a Datblygu Economaidd) |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd derbyn yr Adroddiad Blynyddol Iechyd a Diogelwch Corfforaethol ar gyfer 2017/18 a gweithredu'r Cynllun Datblygu.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Cymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol Iechyd a Diogelwch Corfforaethol.** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |